



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Email / Address

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group

Date / Dyddiad: 18 Rhagfyr 2020

Annwyl Gyfeillion,

COVID 19: Cyfyngiadau Cenedlaethol mis Rhagfyr 2020

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi y daw cyfyngiadau cenedlaethol newydd i rym o ddiwedd y dydd ar Noswyl Nadolig. Bydd y wlad yn symud i lefel rhybudd 4 COVID (cyfyngiadau aros gartref) o 28 Rhagfyr 2020 i helpu i leihau'r nifer o heintiau coronafeirws newydd ar draws Cymru.

Yn unol â chyfyngiadau cenedlaethol blaenorol, bydd practisau optometrïg yn aros ar agor ac o fewn Cyfnod Oren 2, i alluogi i gleifion gael mynediad at wasanaethau meddygol hanfodol.

Dylai pob un ohonom fod yn ymwybodol o'r risgiau sy'n parhau yn sgil coronafeirws, a bod yn wiliadwrus o'r risgiau hyn. Mae gan bob practis ddyletswydd i gadw at ganllawiau'r Cyfnod Oren fel y disgrifiwyd gan y Coleg Optometryddion a gohebiaeth flaenorol gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, hoffwn atgoffa pob un o'r practisau optometrïg yng Nghymru o'r angen i wneud y canlynol:

- Dylid blaenoriaethu a threfnu apwyntiadau gan ystyried yr anghenion clinigol a'r symptomau yn unol â'r risg o golli golwg a niwed i'r claf. Dylid trefnu apwyntiadau rheolaidd yn ôl blaenoriaeth, os oes capasiti ar eu cyfer dim ond pan fydd yr holl apwyntiadau brys a hanfodol wedi'u trefnu.
- Dylid cynnig adolygiadau ffôn a fideo i ddechrau i ganfod statws COVID y claf a lefel yr anghenion gofal llygaid.
- Dylai practisau barhau i ddilyn canllawiau Coleg yr Optometryddion ar reoli haint, cadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol.

Mae tabl Canllawiau Pandemig COVID y Coleg wedi'i lunio ar gyfer cyfyngiadau lleol a chenedlaethol ac mae wedi'i gynllunio i alluogi practisau optometryddion i weithredu'n gyflym pan fydd cyfyngiadau'n cael eu cyhoeddi. Dylai optometryddion a pherchnogion practisau ddefnyddio eu synnwyr cyffredin proffesiynol i addasu gwasanaethau eu practis yn syth ac yn briodol. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ddiogelu preswylwyr lleol rhag cael eu heintio â'r coronafeirws, a diogelu anghenion iechyd llygaid a golwg hanfodol y gymuned.

Fel y gwyddoch; mae'r sefyllfa hon yn newid yn gyflym ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Sicrhewch eich bod yn gwybod beth yw'r datblygiadau diweddaraf. Isod mae dolenni defnyddiol i ganllawiau cyfredol Coleg yr Optometryddion:

<https://www.college-optometrists.org/the-college/media-hub/news-listing/preparing-for-local-lockdowns-college-guidance.html>

<https://www.college-optometrists.org/guidance/covid-19-coronavirus-guidance-information/covid-19-college-guidance.html>

<https://www.college-optometrists.org/guidance/covid-19-coronavirus-guidance-information.html>

Rwy'n gwybod bod llawer ohonoch wedi bod yn gweithio oriau hir i gefnogi GIG Cymru, yn ogystal â chefnogi anghenion iechyd teulu a ffrindiau yn ystod y pandemig. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn neilltuo amser i ystyried eich iechyd a'ch llesiant eich hun hefyd a hoffwn eich annog i dreulio amser yn edrych ar yr adnoddau sydd ar gael. Isod mae dolenni defnyddiol sy'n rhoi gwybodaeth am iechyd meddwl a llesiant yn ystod y pandemig

<http://www.primarycareone.wales.nhs.uk/pc-covid19> a

<https://www.hhpwales.co.uk/contact-us>, sydd hefyd ar gael drwy ffonio 0800 058 2738.

Gall staff hefyd gael mynediad at adnoddau rheoli straen am ddim ar-lein ar wefan [Stress Control](#).

Wrth inni ddod i derfyn y flwyddyn anoddaf i'r proffesiwn optometrïg weithio drwyddi erioed, hoffwn ddiolch ichi am eich proffesiynoldeb yn y cyfnod anodd hwn, ac ymdrechion y proffesiwn i ddiogelu dinasyddion Cymru.

Yn gywir,



David O'Sullivan

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Prif Gyngorydd Optometrig / Chief Optometric Adviser
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol / Office of the Chief Medical Officer
Cyfarwyddiaeth Polisi Iechyd / Directorate of Health Policy
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Department for Health and Social
Services
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ / Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Gwefan • website:
www.llyw.cymru
www.gov.wales